y dinesydd

Tachwedd 1997 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 232

# TAITH I NICARAGUA

Yn ystod yr haf eleni, cefais y fraint o fod yn rhan o ddirprwyaeth ieuenctid i Nicaragua. Roeddwn ar dân am weld gwlad newydd, diwylliannau a phobl ddiddorol, a ffyrdd o fyw mor wahanol i Gymru. Wedi glanio ym maes awyr Managua, y brifddinas, roedd tlodi'r wlad yn fy nharo'n amlwg. Roedd plant bach mewn carpiau yn cardota tu allan, rhai eraill yn chwarae - a hyd yn oed yn ceisio ennill bywoliaeth - ar ganol priffyrdd. Wrth i ni fwyta yng nghaffi marchnad anferth Managua, daeth rhai o blant y stryd i fyny atom a bagiau plastig i gymryd ein sbarion.

Gwlad fach, dlawd yng Nghanol America â phoblogaeth o 4 miliwn yw Nicaragua. Mae iddi hanes terfysglyd o reolaeth ac ymyrraeth estron gan Sbaen, Prydain ac yn fwy diweddar yr Unol Daleithiau, sydd wedi ei gadael ag economi wan wedi ei seilio ar allforio coffi, cig eidion, bwyd môr, a siwgr.

Mae gan Gymru gysylltiadau agos ag Arfordir Iwerydd Nicaragua, ac yn yr ardal hon o'r wlad y treuliasom y rhan fwyaf o'n hamser. Fel Cymru, coloneiddiwyd Arfordir yr Iwerydd gan y Saeson ac yn ddaearyddol, economaidd a diwylliannol, mae'n wahanol iawn i weddill Nicaragua. Ceir yno amrywiaeth cyfoethog o bobloedd a diwylliannau. Mae'r brodorion cynhenid, y Sumos, y Ramas a'r Miskitos yn byw mewn cymunedau ochr yn ochr â phobl Affro-Caribiaidd, Creoles a Mestizos.

Fel y Cymry, mae'r bobl hyn wedi bod yn brwydro'n galed i gael addysg drwy gyfrwng eu hieithoedd eu hunain. Yn y gogledd fe ymwelon ni ag ysgol Miskito-Sbaeneg ac yn y de, un Creole-Sbaeneg lle gwnaethon ni gyfarfod ag Angelica Brown, dynes ddu, fyrlymus, eithriadol a wnaeth gryn argraff arnom. Roedd yn bwysig iddi hi fod y plant yn deall eu hanes a'u gwreiddiau er mwyn adeiladu hunan-hyder a balchder. Meddai, 'Gorfodwyd fi i astudio yn Sbaeneg a dywedwyd fod fy iaith yn Saesneg wedi ei fastardeiddio. Pan ddywedwch wrth blentyn fod ei iaith yn israddol, rydych hefyd yn dweud fod y plentyn yn israddol.' Fel Cymraes roeddwn yn deall yn iawn!



Gwenan Huws yn Nicaragua

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru wedi bod yn ariannu prosiectau ieithyddol a diwylliannol ar Arfordir yr Iwerydd e.e. Radio Zinica - radio cydweithredol bychan sy'n darlledu yn Sbaeneg, Saesneg, Miskito a Garifuna.

A ninnau yng Nghymru newydd bleidleisio o drwch blewyn dros ddatganoli, mae'n rhyfedd meddwl fod pobl Arfordir yr Iwerydd wedi cael awtonomi ers rhai blynyddoedd ac yn gweithio'n galed i wneud iddo lwyddo. Ceir synnwyr cryf o hunaniaeth yno - pobl yr Arfordir ydynt gyntaf, Nicaraguaid wedyn. Yr hyn a wnaeth fy nharo fwyaf oedd brwdfrydedd ac ymroddiad pobl Arfordir yr Iwerydd, er gwaethaf yr holl galedi a gorthrwm, i wynebu'r dyfodol mor llawn o falchder a gobaith.

**Gwenan Huws**

# Awduron o Gaerdydd a'r cyffiniau yn cipio'r gwobrau

Cafodd gwobrau blynyddol i awduron llyfrau plant eu cyflwyno mewn cinio anrhydeddu yn ystod y Gynhadledd Llyfrau Plant a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin.

Cyflwynwyd gwobr Gymraeg Tir na n-Og am ffuglen orau'r flwyddyn i **John Owen** o Gwm Rhondda am ei nofel *Ydy Fe* (Cwmni Iaith Cyf.), tra oedd **Gareth F Williams**, Y Bont-faen, yn derbyn y wobr am lyfr gorau'r flwyddyn ac eithrio ffuglen am ei gyfrol *Dirgelwch Loch Ness* (Y Lolfa).

Yn ystod y cinio fe gyflwynwyd Tlws Mary Vaughan Jones i **Roger Boore**, sylfaenydd a pherchennog Gwasg y Dref Wen, Caerdydd. Cyflwynir y wobr, a gynlluniwyd eleni gan Rhiannon, Tregaron ac a noddwyd gan Guardian Insurance, am gyfraniad arbennig i faes llyfrau plant yng Nghymru dros gyfnod o flynyddoedd.



Gareth F. Williams, John Owen a Roger Boore yn derbyn eu gwobrau

# Y Dinesydd

**Tachwedd 1997, Rhif 232. ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd.*
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Rhagfyr/Ionawr at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 20 Tachwedd:**

**Newyddion y Fro:** Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:** Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, 23 Kelvin Road, Y Rhath, Caerdydd (Ffôn:490687).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Gweithgareddau Dysgwyr:** Mr Gareth Kiff, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd (Ffôn: 486469/755475):
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 578106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Thomas, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd.*

Enw: ...............................................................

Cyfeiriad: ...............................................................

............................................... Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ...............................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Thomas, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ...............................................................

Cyfeiriad: ...............................................................


............................................... Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ...............................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Thomas, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 164** **Tachwedd 1997**



**AR DRAWS**

7. Rhagorol yw cael enigma trofaus rhwng dwy gytsain. (8)
9. Fe welir y fath ymgysegriad gan bob Cymro a deimla dros ei wlad. (6)
10. Cerpyn o ffedog? (4)
11. Aflerwch sy'n achosi tipyn o boen dan din. (10)
12. Dyma'r maddeuant a gewch wrth fegian amdano. (6)
14. Rhoddir cerydd i Harri Owen, a gwneir y peth yn hysbys. (8)
15. Y newid mawr a ddaeth i brofiad y dychweledigion. (6)
17. Fe ymddengys yr un sy'n fwy nerthol mewn dull cryf a chadarn. (6)
20. Addefa Ned ei fod yn amrwd. (8)
22. Y doethur, a mêl yn gymysg, i gael mynychdra arbennig. (6)
23. Yr hyn a wna mast y Wenfô. (10)
24. Awdur a phregethwr disglair o blith y Piwritaniaid oedd y Morgan hwn. (4)
25. Cyflwr pen mynydd Cadwgan yn y Rhondda. (6)
26. O lwyrfryd cytûn. (8)

**I LAWR**

1. Llywodraethu yn aflêr a wna aer y sant. (8)
2. Bocs i ddal llawer yn saff. (4)
3. Soniwyd am hwn yn 17 ar draws. (6)
4. Yn fuan. (3,2,3)
5. Y lleisiwr amlwg o bentref yr L. (4,6)
6. Lles i Don a'i gysylltiadau. (6)
8. Pwynt uchaf tŵr yr eglwys. (6)
13. 'Note bene' yn Gymraeg. (6,4)
16. Stwrio i aflonedd paradwysaidd. (8)
18. Yr oedd yn awyddus i gael hanner dwsin cyn iddo lesgáu. (8)
19. Y mae Edward yn smocio, ac yn credu bod eraill yn synio yn uchel am y peth. (6)
21. Mae yna le yng Ngogledd Lloegr sy'n reit gadarn. (6)
22. Un yn yr Wylfa ac un yn Nhrawsfynydd. (6)
24. Cartre'r pia yn y Rhondda. (4)

**Cystadleuaeth Rhif 163**

Daeth pymtheg ymgais i law, a phob un ohonynt yn gywir. Yr enw a dynnwyd ar hap oedd Maurin Hurley, 14 Greenwood Road, Llandaf; ac mae'r tocyn llyfrau eisoes ar ei ffordd iddi. Dyma enwau'r datryswyr cywir ond anffodus: Iwan Jones, Llanisien; Hilda M Ethall, Rhiwbina; E Haydn Jones, Rhiwbina; Gwenda Hopkins, Llanisien; Margaret Jones, Yr Eglwys Newydd; H.O. Hughes, Pwllheli; Michael Francis, Casnewydd; Nia Williams, Creigiau; Marian Lake, Llanfihangel-ar-Elái; Beti Wyn Thomas, Twickenham; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; Huana Simpson, Y Bont-faen; Carys Humphreys, Bangor; Marged Davies, Llandaf; James Weigold, Rhiwbina.

**Cystadleuaeth Rhif 164**

Pob ymgais i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn 21 Tachwedd os gwelwch yn dda.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## Gair i ddiolch – ac i atgoffa

Mae'r *Dinesydd* yn dibynnu'n drwm iawn am ei barhad ar roddion gan gymdeithasau, eglwysi ac unigolion. Anfonodd yr eglwysi a'r cymdeithasau canlynol roddion atom yn ystod y misoedd diwethaf:

Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys
Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina
Cymry'r Wenallt
Eglwys Bethel, Penarth
Cylch Llyfryddol Caerdydd
Eglwys Gymraeg y Barri
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd

Diolchwn yn gynnes iddynt. Heb eu cymorth hwy a'u tebyg, ni fyddai modd cyhoeddi'r *Dinesydd* – a byddai hynny, wrth reswm, yn golled aruthrol i fywyd Cymraeg y brifddinas

Os nad yw'ch cymdeithas/eglwys wedi anfon rhodd yn ddiweddar, byddai'n Trysorydd, Mr Rheon Thomas, wrth ei fodd yn clywed oddi wrthi! Ei gyfeiriad yw 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## Teulu, Bro a Thelyn

Y mae cyfrol newydd Robin Gwyndaf, *Teulu, Bro a Thelyn,* yn bortread o Emrys Jones, Llangwm, cymwynaswr adnabyddus am ei gyfraniad nodedig fel canwr gwerin a datgeinydd, trefnydd a hyfforddwr, ac un a fu'n gynheilydd traddodiad y diwylliant cyfoethog yn Uwchaled a'r cyffiniau, yn arbennig y traddodiad Cerdd Dant a Cherdd Dafod, canu cynulleidfaol a chanu corawl, eisteddfod a chyfarfod cystadleuol.

Cyhoeddwyd y gyfrol hardd hon (220 tud.) gan Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru ar achlysur traddodi Darlith Goffa y Fonesig Amy Parry-Williams gan Robin Gwyndaf yn y Babell Lên, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Meirion a'r Cyffiniau, Y Bala, 2 Awst 1997. Y mae ynddi 70 o luniau diddorol a'i phris yw £13.95.

## Rhosyn Coch

Llongyfarchiadau i Mrs Fflorens Roberts, Radyr, ar gyhoeddi ei thrydedd gyfrol yn ddiweddar. Ei theitl yw *Rhosyn Coch,* ac fe'i lleolir yn ninas Prag. Llyfr am y Gymraes anghyffredin honno o'r Bala, Betsi Cadwaladr, oedd cyfrol gyntaf Mrs Roberts, a'i hail gyfrol yn nofel am fywyd ysbyty yn Lerpwl.

## Marchnata'r Coleg Cerdd a Drama

Llongyfarchiadau i Kim Morgans ar gael ei phenodi'n bennaeth marchnata yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru. Bu Kim, sy'n dod yn wreiddiol o Ben-y-bont ar Ogwr, yn gweithio cyn hynny ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd ac yna gyda Bwrdd yr Iaith. Llongyfarchiadau hefyd i Bethan Davies o Ystradgynlais ar gael ei phenodi'n swyddog marchnata yn y Coleg Cerdd a Drama. Cyn hynny bu Bethan yn gweithio yn Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru, Caerdydd.

**DATRYSIAD CROESAIR HYDREF**



Cydymdeimlwn â Janie, Alun, Iwan a'u teuluoedd ar golli eu mam, Mrs Annie Guy, gwraig y diweddar D. T. Guy, a fu farw ar 22 Hydref yn 96 oed.

Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Eirlys Prosser (gynt o Anton Court, Yr Eglwys Newydd), a fu farw ar 17 Medi.

Bedyddiwyd Alys Catrin, merch Sara ac Andrew Humphreys, yn Eglwys y Crwys ym mis Medi. Pob dymuniad da iddynt fel teulu.

## Calendr y Dinesydd

**Mercher, 12 Tachwedd**
Darlith Goffa G. J. Williams: 'Cyfrolau Cedyrn Solet: Dr Thomas Richards ym Maesteg', gan yr Athro Geraint H. Jenkins, Aberystwyth, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 6.00 p.m.

**Mercher, 12 Tachwedd**
Merched y Wawr – Cangen y Garth: 'Blodau ar gyfer y Nadolig' gan Christine Malcolm, yn Neuadd y Pentref, Pen-tyrch, am 8 p.m.

**Iau, 13 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Llais yr Ifanc (Hawl i Holi), yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Iau, 13 Tachwedd**
Clwb Gwawr Radur: 'Addurniadau Nadolig "Gwahanol" ' gan Nerys Snowshill, yng Nglwb Golff Radur am 8.30 p.m.

**Gwener, 14 Tachwedd**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: 'Taith o Gwmpas Caerdydd.' Sgwrs gan Arthur Bowen, yn festri Eglwys Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.

**Sadwrn, 15 Tachwedd**
Ysgol Undydd ar y testun 'Patagonia – Ddoe, Heddiw ac Yfory?' dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru Caerdydd, yn 38 Park Place, Caerdydd, 10.30 a.m. - 4.00 p.m. Darlithydd: Dr Robert Owen Jones. Tâl: £11. Manylion pellach: Dr Gwen Awbery 01222-874832.

**Sadwrn, 15 Tachwedd**
Clwb Ifor Bach: 'Anweledig'. Manylion pellach: 01222-232199.

**Llun, 17 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Gwaith Asiantaeth yr Amgylchedd' gan Dr Alun James, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 18 Tachwedd**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Sgwrs am y Wladfa gan Dilys a Cyril Thomas, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.

**Mawrth, 18 Tachwedd**
Merched y Wawr – Cangen Llanbedr-y-fro: Sgwrs am Ynys Enlli gan Ann Saer, yn festri Bethania, Pendeulwyn am 7.30 p.m.

**Mercher, 19 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Dr John Morgan yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.

**Mercher, 19 Tachwedd**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs am Uganda gan Richard Brunt, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.

**Iau, 20 Tachwedd**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien, am 7.00 p.m., i ddechrau bwyta am 7.30 p.m. Gŵr gwadd: Gwynedd O. Pierce.

**Gwener, 21 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Yr Arlunfa Gymreig: Betws-y-coed a Byd Celf Cymru, 1844-1914' gan Peter Lord, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Llun, 24 Tachwedd**
Cell Cymdeithas y Cymod: 'Cofio Dewi Eirug' gan Huw Ethall, yng nghapel Salem, Treganna am 7.30 p.m.

**Iau, 27 Tachwedd**
Clwb Gwawr Caerdydd: 'Blasu gwin!', yng Nglwb Ifor Bach am 8 p.m.

**Sadwrn, 29 Tachwedd**
Merched y Wawr (Rhanbarth y De-Ddwyrain): Gwibdaith siopa i Gaerfaddon. Manylion pellach: Marian Lake (01222-593776).

**Llun, 1 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Blas Nadolig', yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Mercher, 3 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Garwyn Davies yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.

**Gwener, 5 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Côr Plant Caerdydd (Arweinydd: Mair Robins) yn nghapel Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m. Casgliad at Apêl Ymchwil Ysbyty Felindre.

**Gwener, 5 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd: 'Sgrifennu ar gyfer Sawl Cyfrwng' gan Manon Rhys, yn neuadd Eglwys y Crwys am 7.15 p.m.

**Sadwrn, 6 Rhagfyr**
'Sêr yn Salem', yng nghapel Salem, Treganna am 7.30 p.m.

**Llun, 8 Rhagfyr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Darganfod Olion Dynol Cynnar' gan Ken Brassil o'r Amgueddfa Genedlaethol, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mercher, 10 Rhagfyr**
Cell Caerdydd Cristnogion yn Erbyn Poenydio: Gwyliadwriaeth, gweddi a myfyrdod dros garcharorion cydwybod ar draws y byd ar Ddydd Hawliau Dynol, yn neuadd Eglwys y Crwys rhwng 3 a 7 p.m. Manylion pellach: 01222-371178.

**Gwener, 12 Rhagfyr**
Clwb Ifor Bach: 'Dafydd Iwan a'r Band'. Manylion pellach: 01222-232199.

**Mawrth, 16 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Rhaglen Nadolig dan ofal Beti-Wyn James, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.

**Mercher, 17 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Dathlu'r Nadolig yng nghwmni Ieuan Davies a Huw Ethall yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.

**Mercher, 17 Rhagfyr**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Parti Nadolig, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

**O.N. Ar hyd mis Tachwedd ceir rhaglen lawn iawn o ddramâu Cymraeg yng Nghanolfan Chapter. Am wybodaeth pellach, ffoniwch 01222-236651 neu 01222-395332.**

## LLYWYDD NEWYDD



*Idwal Hughes*
Llun: Robin Griffith

Ar 3 Hydref cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor y Cymrodorion yn Minny Street i arwisgo y Llywydd newydd, Mr Idwal Hughes. Yn absenoldeb ein cyn-Lywydd, Mrs Rhiannon Gregory, yn ei dull naturiol ei hunan cyflwynodd Mrs Hilda Ethall ein Llywydd newydd, Mr Idwal Hughes a'i arwisgo.

Y mae ein Llywydd newydd wedi bod yn Drysorydd y Gymdeithas ers llawer blwyddyn, ac fe gymerodd y swydd ychwanegol oherwydd i ni golli ein Llywydd etholedig, y diweddar Barchedig Ddr Dewi Eurig Davies yn gynharach eleni.

Cawsom noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr Hughes gan iddo fynd â ni, trwy gymorth sleidiau a chasetiau cerddorol, ar daith o amgylch Sir Drefaldwyn - sir ei fagwraeth. Clywsom hanes nifer o enwogion yr ardal, pobl fel Nansi Richards (Telynores Maldwyn) a'r Esgob William Morgan, ac aethom cyn belled â'r Berwyn a Llanwddyn trwy gyfrwng y sleidiau, heb sôn am fywyd diwydiannol y cylch, er enghraifft, yr hen olion o'r gweithfeydd plwm.

Roedd chwiorydd Ebeneser wedi paratoi gwledd ar ein cyfer ar derfyn y noson.

## Darlith Harri Pritchard Jones

Harri Pritchard Jones oedd gwestai'r Cylch ar 17 Hydref. Yn y dyfodol agos bydd Gwasg Gee yn cyhoeddi cyfrol o'i waith sef detholiad o storïau byrion Kate Roberts, a chawsom ragflas ohoni mewn darlith yn dwyn y teitl, 'Golygu Kate'.


I lawer, dynes biwis, anghynnes, gecrus oedd 'Doctor Kate', a daw'r elfennau hyn i'r golwg weithiau ym mhersonoliaeth rhai o gymeriadau ei storïau a'i nofelau - yn enwedig y rhai hynny a luniwyd pan oedd colledion personol yn effeithio ar ei gwaith creadigol. Collodd un brawd iddi ei fywyd yn y rhyfel mawr a chollodd brawd arall ei iechyd yr un pryd: yna, toc ar ôl diwedd y rhyfel bu farw'i gŵr, a hyn oll, yn ogystal â thlodi a dioddefaint y chwarelwyr gwerinol y magwyd hi yn eu plith, oedd yn bennaf gyfrifol ei bod hi'n ymwneud â galar pethau ac yn edrych ar ochr ddu bywyd.

Ond roedd ochr arall i'w chymeriad hefyd, ac roedd yn feistres ar ddehongli mewn geiriau ei hymateb hi i wahanol synau ac aroglau a theimladau. Teimlai i'r byw am rai pethau, megis problemau a wynebai, ac sy'n dal i wynebu, pobl ifainc. Wrth drin y rhain tueddai ei gwaith creadigol weithiau at fynd yn bregethwrol, weithiau'n forbid, heb arwydd o gwbl o hiwmor na chynhesrwydd.

Ond does dim dadl nad oedd 'Doctor Kate' yn llenor athrylithgar, a gwaith digon anodd oedd dethol, o blith y llu o storïau a gynhyrchodd, rai addas, ym marn y golygydd, i'w cynnwys mewn cyfrol. Diolch i Harri am ymgymryd â'r dasg ac am noson hynod ddiddorol pryd y cawsom olwg newydd ar yr awdures hon - un y bu nifer yn ei chofio'n bennaf oherwydd eu bod wedi gorfod astudio'i gwaith ar gyfer arholiadau Lefel A (ac un o leiaf yn teimlo'n ddigon hen wrth sylweddoli mai ar gyfer yr 'Higher' bondigrybwyll y bu yntau'n darllen *Rhigolau Bywyd* gynta!)

Diolch yn fawr, Harri. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at weld y llyfr mewn print.

**D. Gwyn Jones**




Cydymdeimlir â Dudley a Rhianydd Newbery ar golli eu tad yn ddiweddar.

Rheolwraig newydd gwerthu hysbysebion CableTel De Cymru yw Catrin Howkins a gafodd ei haddysgu yn Ysgol Gyfun Glantaf a Phrifysgol Cymru Abertawe.

Rheolwraig newydd Techniquest ym Mae Caerdydd yw Sarah Vining-Smith sy'n siarad Cymraeg ac yn gyn-Swyddog Marchnata'r ganolfan.

Llongyfarchiadau i Ceiri Torjussen, Rhiwbina ar ennill un o ddeg ysgoloriaeth flynyddol S4C i noddi pobl ifainc addawol ym myd cerddoriaeth lleisiol ac offerynnol, newyddiaduraeth, actio ac animeiddio. Eisoes enillodd Dlws y Cerddor yn 1995 a 1997 yn Eisteddfodau Cenedlaethol yr Urdd. Ei uchelgais yw bod yn gyfansoddwr proffesiynol. Rhydd yr ysgoloriaeth hon gyfle iddo ddilyn cwrs ym Mhrifysgol Efrog Newydd.

Cydymdeimlir ag Eluned Bere, Y Barri, ar golli ei gŵr Clifford Ifan ar 16 Medi. Gedy bedwar o feibion sef Iwan, Gareth, Gwilym a Gwyn. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen (*Thornhill*) ddydd Llun, 22 Medi.

Cafwyd noson ddymunol iawn yng Nghapel Bethel, Rhiwbina nos Wener, 19 Medi, pan gafwyd cyngerdd gan Gôr Plant Caerdydd dan arweiniad Mair Robins, a Sandra Semmens yn cyfeilio. Yr unawdwyr oedd Rhodri Lloyd a Trystan Francis.

Croeso i Huw ar aelwyd Aled a Bethan Price a anwyd ar 7 Medi yn Ysbyty Llandochau. Ŵyr i Emyr a Dilys Williams a Gareth a Mari Price.

Cyhoeddwyd dyweddïad Richard, mab John a Christine Gravelle, a Gwenllian Pierce, merch Richard a Bethan Lewis. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Mae Cwmni UCI Cinemas, sy newydd agor un o'u sinemâu ym Mae Caerdydd, wedi dewis Branwen Evans i fod yn 'wyneb' ar eu hymgyrch hysbysebu a bydd wyneb Branwen yn ymddangos ar bosteri a ddangosir ymhob rhan o Brydain. Cyn-ddisgybl o Ysgol Glantaf yw Branwen ac mae hi'n ferch i'r newyddiadurwr Rian Evans a'r darlledwr Hywel Gwynfryn.

Un arall o gyn-ddisgyblion Glantaf yw'r actor Mathew Rhys sy'n ymddangos yn y ffilm 'House of America', sy'n seiliedig ar ddrama lwyfan Ed Thomas. Cafodd y ffilm ei chyfarwyddo gan Marc Evans, o Riwbina gynt.

Mae Tanni Grey, yr athletwraig o Gaerdydd, wedi ennill gwobr arall yn ddiweddar pan gafodd ei henwi yn Gyfathrebwraig y Flwyddyn gan Sefydliad Cysylltiadau Cyhoeddus Cymru. Sefydlwyd y wobr yn 1987 ac mae'n cydnabod cyfraniad unigolyn sy wedi cyflwyno delwedd gadarnhaol o Gymru yn fyd-eang. Rhai o enillwyr blaenorol y wobr yw Bryn Terfel, Syr Anthony Hopkins a Simon Weston.

Ddydd Sul, 5 Hydref, gosodwyd cerflun Aneurin Bevan yn ôl yn ei le yn Heol y Frenhines ar ôl ei atgyweirio. Gwyliwyd y gwaith o'i osod yn ôl gan Robert Thomas y cerflunydd a'i deulu sy'n byw yn y Barri. Dethlir canmlwyddiant geni Aneurin Bevan ar 15 Tachwedd.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Y BETHEL ARALL

YN RHIFYN Ionawr y llynedd roedd stori yn *Y Dinesydd* am 'un o fethiannau'r Brenin Mawr', sef capel Bethel yn y dociau. Ar ôl bod yn addoldy llwyddiannus, daeth dyddiau blin a gorffennodd yr adeilad fel aelwyd i Glwb Casablanca. Y bwriad oedd ei dynnu i lawr ond beth amser yn ôl fe fu tân yno a losgodd dipyn o du mewn y lle, fel y gwelir yn y llun hwn, ac erbyn hyn y mae'r adeilad wedi'i ddymchwel yn llwyr.





*Hen gapel Bethel, Sblot wedi'r tân.*
Llun: Robin Griffith.

Ond doedd y stori a adroddodd *Y Dinesydd* ddim yn hollol gywir. Cafwyd prydles i adeiladu Bethel yn 1855 a chafodd ei agor yn 1858. Fe ddaeth y brydles honno i ben erbyn 1955. Roedd y gost o'i hadnewyddu'n ormod i'r aelodau a symudasant i Stryd Pomeroy, i adeilad capel Annibynwyr Cymraeg a gafodd ei agor yn 1912. Roedd yr achos Cymraeg hwn (hefyd) cyn hynny mewn capel yn Sgwâr Mount Stuart. Cafodd ei agor yr un flwyddyn â Bethel - 1858. Fel y mae pethau wedi newid!

Felly nid cau fu hanes Bethel Sblot ond symud i adeilad arall ac mae'r aelodau'n dal i addoli yn Stryd Pomeroy. Mae graen da ar yr adeilad, fel y gwelwch o'r llun isod.

Anaml y clywir sôn amdano nac am y trysorau sydd ynddo. Un trysor yw'r gadair genedlaethol a ddaeth i'w gweinidog (ar y pryd) y Parchedig Thomas Davies. Fe fu'n weinidog ar yr eglwys am 44 o flynyddoedd. Efallai y gellid cael llun ohoni i'r *Dinesydd* rywbryd.



*Capel presennol Bethel, Stryd Pomeroy.* Llun: Robin Griffith

## MINNY STREET

Cafwyd oedfaon bendithiol ar 21 Medi gyda'r Parch. Ronald Williams, Caernarfon yn gwasanaethu yn ein Cyrddau Blynyddol. Hyfryd oedd cael cwmni cynifer o gyfeillion yng ngwasanaethau'r dydd, ac yn arbennig yn yr oedfa hwyrol pan gafwyd cefnogaeth nifer o eglwysi'r cylch a chynulleidfa o dros ddau gant.

Mis Hydref - mis y cynhaeaf, mis y diolch - a ninnau'n cynnal ein Cyrddau Diolchgarwch ar Sul cyntaf y mis. Oedfa'r Plant yn y bore pan fu'r plant ieuengaf yn cyflwyno rhoddion o lysiau a ffrwythau i'w dosbarthu ymysg dros ddeugain o henoed yr Eglwys a'r rhai heb fod mewn iechyd da - diolch arbennig i'n Gweinidog, y Parch. Ieuan Davies, am sicrhau bod y rhoddion yma yn cyrraedd y cartrefi. Hefyd bu'r plant hŷn yn cyflwyno rhoddion ariannol tuag at ymgyrch arbennig Undeb yr Annibynwyr, 'Sylw i Swdan' gan ddangos eu consyrn a'u gofal hwythau dros blant a phobl llai ffodus na hwy. Parhau ar y thema diolch yn yr oedfa Gymun yn yr hwyr gan roi sylw arbennig i waith y Parch. T J Davies ac yntau'n dathlu 50 mlynedd yn y weinidogaeth. Cafwyd hefyd eitemau cerddorol gan barti merched o dan arweiniad Mrs Meudwen Davies a chawsom y fraint o dderbyn aelod newydd i'n plith - Llinor ap Gwynedd.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i deuluoedd dau faban newydd sef **Gwenno Haf**, merch i Nia a Geoff Evans, Cwrt Radyr (*Danescourt*) a **Huw**, mab i Bethan ac Aled Price, Llandaf. Dymunwn yn dda hefyd i **Rhian** (merch Ann a John Rees) ar ei phriodas â Dafydd Elfyn Williams ddydd Sadwrn olaf mis Hydref.

**Bethan Jones**

## Croesawu a Ffarwelio

Cynhaliwyd te croeso i newydd-ddyfodiaid i'r brifddinas gan yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy brynhawn Sul, 5 Hydref. Rhoddwyd croeso arbennig i bump o ymwelwyr o'r Wladfa a dymunwyd yn dda i Wyn Hughes a fu'n athro yn Ysgol Cwm Rhymni cyn penderfynu mynd i Goleg Beiblaidd yn Llundain am ddwy flynedd i baratoi at y Weinidogaeth.

## Bethel, Penarth

Ym marwolaeth Ellis Wynn Griffiths collodd eglwys Bethel un o'i haelodau ffyddlonaf. Roedd yn frodor o ardal Llanelli ac yn athro wrth ei alwedigaeth. Wedi iddo ymddeol, ymddiddorodd yn fawr yn y mudiad eciwmenaidd ac fe'i hyrwyddodd mewn gwasanaethau a chyfarfodydd eglwysig.

Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch yn yr eglwys ar fore Sul, 5 Hydref. Paratowyd y plant ac ieuenctid yr eglwys gan Mrs Chris Jones a'r Arolygydd, Mrs Gwenda Burgess.

## Noson felys yn Newi Sant

Rai dyddiau'n ôl cynhaliodd Eglwys Dewi Sant ei Noson Siocled flynyddol - ymdrech fechan i roi help llaw i Siôn Corn. Roedd y lle'n llawn o siocledi Gwlad Belg o bob math ar ddechrau'r noson a dipyn gwacach wedi i'r aelodau fod wrthi'n prynu - a'r elw'n mynd at achosion da. Roedd y cyfan o dan ofal Mrs Gwenda Williams.

# YSGOL GLANTAF

## *Blwyddyn 7 yn Llangrannog*

### Argraffiadau'r Plant

Yn ystod mis Medi aeth Bl. 7 Glantaf i Langrannog. Roedd pawb wedi mwynhau yn enwedig y Noson Lawen. Roedd y gweithgareddau yn dda a chafodd pawb gyfle i siarad Cymraeg a chael hwyl. Cawsom amrywiaeth o fwyd gan gynnwys sglods, sglods a mwy o sglods a daeth pawb adre yn hapus. ***- Geraint Passmore 7B***

Fe wnes i fwynhau lot fawr yn Llangrannog. Y peth wnes i wir fwynhau oedd y gwibgartio a nofio ac wnes i wir wir fwynhau y nosweithiau. Roedden ni i gyd yn cael hwyl a sbri gyda'n ffrindiau. Fe wnes i fwynhau y noson olaf hefyd, achos roedden ni wedi cael hwyl a sbri yn chwerthin a gweiddio ar y swogs a'r athrawon yn chwarae triciau ar ei gilydd.


***- Jannean Evans 7E***

Yn Llangrannog mae pawb yn garedig. Roedd y swogs yn hwyl yn enwedig yn y noson lawen. Ces i sioc pan oedd yr athrawon yn ymddwyn fel plant, hefyd! Roedd ein diwrnodau yn cael eu rhannu: yn y bore byddem yn cael gwersi ac yn y prynhawn...GWEITHGAREDDAU! Y rhan fwyaf o'r amser roedd y swogs yn ein dysgu; roedden nhw mor ddoniol. Doedd y bwyd dim yn amrywio llawer, sglods, sglods a sglods! Roedd yn drist pan oedd yn rhaid inni adael. Nôl i waith ysgol, gwaetha'r modd. ***- Alex Clatworthy 7B***

Roedd hi'n wythnos arbennig o dda yn Llangrannog. Roedd y bwyd yn hyfryd, roedd y gweithgareddau yn hwyl ac yn well na dim roedd gennyn ni Noson Lawen. Roedd hi'n grêt yn gwylio'r swogs yn gwneud pethau doniol i'r athrawon. Roeddwn i wir yn hoffi'r merlota a'r beiciau modur ond doeddwn i ddim yn hoffi'r mwd yn hedfan ar eich dillad. Roeddwn i'n edrych ymlaen at fwyta yng nghanol y nos ond roedd yr athrawon yn gwneud yn siŵr fod neb yn gwneud. ***- Cari White 7E***

Roedd Llangrannog yn wych. Roedd digon o bethau i'w gwneud, yn weithgareddau, chwarae a gweithgareddau nos. Doedd y gwersi ddim yn ddiflas gan fod swyddogion o'r chweched yn ein dysgu. Mi roeddwn i'n hoffi'r gweithgareddau nos, y dawnsio gwerin, cwis, disgo a Noson Lawen. Roedd y Noson Lawen yn ffantastig gan fod y swyddogion yn gwneud pethau i'r athrawon (talu'r pwyth yn ôl fel petai). Ac yna'r athrawon yn gwneud pethau i'r swyddogion. Roedd y tywydd yn dda hefyd ar wahân i un diwrnod, ond doedd y glaw ddim yn ein stopio ni rhag chwarae tu allan ac roedd hi'n wythnos wych.

***- Fflur Dafydd 7B***



*Llangrannog: y plant yn canu yn y côr*



*Llangrannog: rhai o'r swyddogion yn gweithiau'n galed!*

### Argraffiadau'r Swyddogion (o'r 6ed Dosbarth)

*Déja vu* - ffrydlif o atgofion yn dychwelyd wrth weld yr hen olygfeydd a theimlo'n chwith wrth weld popeth yn llai nag a gofiwn. Roedd gweld cyffro ac eiddgarwch y plant, fodd bynnag, yn f'atgoffa hyd yn oed yn fwy am fy ngwyliau i yn Llangrannog pan oeddwn ym Mlwyddyn 7. ***- Siân Stephens***

Braf iawn oedd cael awennau pwer yn ein dwylo am unwaith. Pan oeddwn i ym Mlwyddyn 7 roeddwn i'n edrych lan at y chweched - profiad hyfryd oedd cael y plant bach yn edrych lan atom ni'r swyddogion nawr! Er y straen o ofalu a dysgu cannoedd o blant, mwynhad oedd gwthio'r blinder o'r ffordd a chael aros i fyny tan oriau mân y bore yn lle mynd i gysgu am ddeg o'r gloch.

***- Hywel Williams***

Diwrnod digon diflas oedd hi pan ddaeth Llangrannog i'r golwg, ac roedd fy nheimladau'n ddigon tebyg ar ôl i mi dreulio oriau yn ceisio disgyblu'r plant. Dyna oedd gweddill yr wythnos - cybolfa o weiddi a sgrechian, a theimlad o hapusrwydd bob hyn a hyn. Gwibiodd yr wythnos heibio a rhwng rasus sachau cysgu, gwibgartio lu cyrhaeddodd uchafbwynt yr wythnos sef noson y swogs - a'r athrawon wrth gwrs! ***- Elen Mair Thomas***

Uchafbwynt yr wythnos i nifer o'r swyddogion oedd eu cyfle hwy i ddial ar rai o'r athrawon. Cafodd nifer ohonom y pleser o wisgo tri athro lan fel menywod a'u gweld yn dawnsio'n frwdfrydig i 'YMCA'. ***- Catrin Mears***

Ar ddiwedd yr wythnos, wedi dal annwyd a cholli fy llais roeddwn yn falch o ddod adref ac un peth ar fy meddwl - PEIDIO Â BOD YN ATHRAWES!- ***Alys Gwyneth***

Doeddwn i ddim yn teimlo fy mod i wedi blino yn ystod yr wythnos ond ar ôl i mi gyrraedd adref cysgais drwy'r penwythnos. ***- Lowri Jones***

Cyn i'r gweithgareddau ddechrau bob diwrnod roedd yn rhaid i'r swyddogion ddysgu'r plant am awr a hanner. '*A doddle*!', medd un, 'Dim problem' medd un arall. Dim o gwbl. Anodd iawn oedd cael y plant i wrando - heb sôn am weithio.

***- Leah Jones***

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

**dan ofal B.D. Harries**

## *Heliwr, Y Palmant Aur* – a doniau Melin Gruffydd

Un o uchafbwyntiau amserlen S4C yn ystod y misoedd nesaf yw'r gyfres newydd o *Heliwr*, gyda'r actor o Ferthyr Tudful, Philip Madoc, yn chwarae rhan y Ditectif Brif Arolygydd Noel Bain. Roedd cwmni cynhyrchu'r gyfres, 'Lluniau Lliw', yn chwilio am ddau fachgen gwallt golau o oed ysgol gynradd i chwarae rhan dau frawd yn nrama gynta'r gyfres, *Grym Gwaed* – ac, yn gyfleus iawn, daethant o hyd i ddau addas yn yr un ysgol, sef Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yn yr Eglwys Newydd.

Erbyn hyn y mae un o'r bechgyn, Emyr Rhun James, wedi symud ymlaen i Ysgol Glantaf; ond y mae'r ieuengaf o'r ddau, Gruffydd Brynmor, yn parhau yn Ysgol Melin Gruffydd – ac y mae gyrfa actio Gruffydd yn amlwg yn mynd o nerth i nerth, oherwydd o fewn ychydig ddyddiau iddo gael ei weld yn *Grym Gwaed*, yr oedd hefyd i'w weld yn chwarae rhan Ifan Bach yn y gyfres newydd o *Y Palmant Aur*.



*Philip Madoc yn 'Heliwr'*

## YSGOL GLANTAF (parhad)



*Llangrannog: yr athrawon yn mwynhau!*

Profiad gorau'r wythnos oedd nos Iau'r Refferendwm. Tra bod yr athrawon mewn un ystafell roedden ni'r swyddogion o flaen teledu ym mhen arall y gwersyll, yn gwingo a phoeni. Ond erbyn diwedd y noson roeddem yn rhedeg o amgylch y gwersyll, gan gynnwys i fyny ac i lawr y llethr sgio, mewn hapusrwydd gogoneddus.

***- Huw Stephens***



*Rhai o ddisgyblion Glantaf ar y daith gyfnewid i'r Almaen*

## Dychwelyd i Deutschland!

Am y drydedd flwyddyn yn olynol cymerodd disgyblion Ysgol Gymraeg Glantaf ran mewn taith gyfnewid â disgyblion Ysgol Ramadeg Bergneustadt, tref sy nepell o Köln a Bonn yn yr Almaen. Arhoson ni yno am wythnos gyda'n cyfeillion Almeinig, yn ymweld â rhai o'r mannau o ddiddordeb yn yr ardal, gan gynnwys eglwys gadeiriol enfawr Köln a thŷ Beethoven yn Bonn. Mae'n rhaid cyfaddef mai'r siopa yn Köln yw'r atgof pennaf yn fy meddwl i - roedd hi'n dipyn o antur gofyn am esgidiau trwy gyfrwng yr Almaeneg! Cawsom ddiwrnod braf iawn yn Phantasialand hefyd, sef parc antur llawn atyniadau. Rwy'n siŵr fy mod i'n siarad ar ran y rhan fwyaf o'r disgyblion a oedd yno gyda mi pan ddywedaf fod y diwrnod hwnnw, a'r daith i gyd o ran hynny, wedi bod yn wirioneddol ffantastig!

Nid dyma'r tro cyntaf i mi fod yn rhan o daith gyfnewid o'r fath. Roeddwn i'n dychwelyd am yr ail dro i Bergneustadt. Bûm ar y daith gyfnewid yno y llynedd, a chan fy mod wedi mwynhau'r profiad gymaint ac am gael cyfle pellach i wella fy Almaeneg, roeddwn yn awyddus iawn i fod yn rhan o'r trefniadau cyfnewid unwaith eto.


Cefais aros gyda'r un teulu â'r llynedd - roeddwn i'n lwcus iawn fy mod i'n dod ymlaen mor dda â'm partner cyfnewid, Rina Martens. Y noson cyn y trip roeddwn i wedi cyffroi'n llwyr, ac yn edrych ymlaen yn arw at gael ail-gwrdd â hen ffrindiau. Ni chefais fy siomi; mwynheuais yr ail drip yma gymaint, os nad yn fwy, na'r un diwethaf, yn bennaf am fy mod yn teimlo mor gartrefol yng nghwmni Rina, ei theulu a'i ffrindiau. Rwy'n ddiolchgar iawn iddyn nhw am y croeso cynnes a gefais ganddynt.

Elwais lawer o ddychwelyd i'r Almaen. Y tro yma roeddwn i'n llawer mwy hyderus, ac yn deall a siarad mwy o Almaeneg. Roedd hi'n braf iawn cael gweld drosof fy hun y cynnydd rwyf wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Yr unig anfantais o fynd yr eildro oedd ei bod hi'n anoddach o lawer dweud 'Aufwiedersehen!'

***Eleri James 11Ll***

## NEWYDDION YR URDD

# Gweithgareddau a gwibdeithiau






### Trip i Stiwdios 'Granada'

Trefnwyd trip yn ystod hanner tymor ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7 a 8 Glantaf i 'Granada Studios'. Trefnwyd y trip ar y cyd rhwng disgyblion Glantaf a Rhydfelen. Cafwyd cyfle i ymweld â set 'Coronation St', chwarae rhan 'Fitz' yn 'Cracker', cyflwyno 'This Morning', ymweld â set 'Adventure of Sherlock Holmes' a thrip i lawr 'Baker St'. Cyn cychwyn nôl i Gaerdydd cafodd pawb bryd o fwyd 2 gwrs yn Harry Ramsdens.

### Cwrs Pêl-rwyd yr Urdd



Ddydd Llun hanner tymor trefnwyd cwrs Pêl-rwyd ar gyfer merched cynradd Bl. 4, 5 a 6. Cynhaliwyd y diwrnod yn Ngerddi Soffia, Caerdydd dan arweiniad Swyddog Datblygu Pêl-rwyd Caerdydd, Melanie Tuckwell. Cafwyd cyfle i ymarfer sgiliau Pêl-rwyd a chyfle i chwarae gemau. Cyflwynwyd tystysgrif i bawb a fynychodd y cwrs ar ddiwedd y diwrnod.





### Cwrs Pêl-fasged



Ddydd Iau hanner tymor cynhaliwyd am y tro cyntaf i'r Urdd yn Ne Morgannwg gwrs Pêl-fasged ar gyfer disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6. Roedd y cwrs dan arweiniad chwaraewr proffesiynol o America, Chris Harper, sy'n chwarae i dîm Pêl-fasged Caerdydd, 'Cardiff Phoenix.' Cafwyd ymateb gwych i'r diwrnod, a dros 30 o fechgyn yn mynychu'r cwrs.

### Diwrnod Merlota



Yn ystod hanner tymor trefnwyd cwrs merlota ar gyfer disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 ysgolion cynradd De Morgannwg. Cafwyd ymateb gwych ac bu raid trefnu dau leoliad oherwydd yr ymateb. Danfonwyd un grŵp i'r Fenni a grŵp arall i Aberdâr. Yn ystod y diwrnod cafodd y plant gyfle i ddysgu am ofalu am geffylau, cwis am geffylau ac yna cyfle i ferlota o amgylch Y Fenni ac Aberdâr.

Hoffai'r Urdd yn Ne Morgannwg ddiolch yn fawr iawn i bawb a fynychodd ei gweithgareddau yn ystod hanner tymor. Yn ychwanegol i'r uchod cafwyd ymateb gwych i'r cyrsiau Pêl-droed a gynhaliwyd ar yr Astroturf yn Ngerddi Soffia ar gyfer blynyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6 (dros 90 o blant yn mynychu), a hefyd i'r Cynlluniau Chwarae a gynhaliwyd yn Nghanolfan yr Urdd o ddydd Llun i ddydd Gwener.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## BAGATAWE

A beth yw Bagatawe? Lacrós yw'r enw erbyn hyn (enw Ffrangeg o 'crosse' - croes), ac fe'i chwaraewyd gyntaf gan yr Indiaid yng Ngogledd America - tylwythau Alsonquin yn nyffryn Afon Lawrens.

Rhyfedd i mi oedd clywed ei bod yn ffynnu yn ein gwlad erbyn hyn ac mae llawer iawn o dimau'n ei chwarae, merched a meibion bellach - ynghyd â phlant o bob oed.

Aeth Tîm Merched Hynaf Cymru i Gwpan y Byd yn Siapan fis Mai gan orffen yn bedwerydd a churo Canada am y tro cyntaf erioed. Y tymor diwethaf cafwyd y fuddugoliaeth gyntaf erioed yn erbyn unrhyw dîm o Loegr - ar ôl 33 blynedd, hynny yw - pan enillodd y tîm o dan 21 oed. Ail oedd y Garfan Ddatblygu a aeth i Sweden i gystadlu ym Mhencampwriaeth Ewrop fis Gorffennaf.

Mae gennym hefyd dîm Meibion Hynaf; pedwerydd oedden nhw ym Mhencampwriaeth Ewrop ac mae'r meibion o dan 19 oed yn paratoi ar hyn o bryd am Bencampwriaeth y Byd yn Baltimore (U.D.A.) y flwyddyn nesaf.

Mae'n rhaid llongyfarch Ysgol Hywel, Llandaf, am gamp ei Merched Hynaf yn Bedford yn yr haf; roedd y tîm yn ail wedi curo chwe ysgol yn Lloegr, a cholli i un yn unig. Faint ohonom a wyddai fod cynifer o'r genedl yn chware Lacrós tybed?


### *Ysgolion Cynradd*

Addaswyd y gêm ar gyfer y rhai o dan 11 oed; rhwyd dafl (croes) blastig sydd ganddynt a phêl feddalach nag un rwber caled y chwaraewyr hynaf. Ysgol orau'r wlad eleni ydyw Ysgol Cogan, Y Barri, pencampwyr y gwledydd hyn ac nid Cymru'n unig. Ysgol Glan-yr-Afon, Gwent, oedd yn bumed ym Mhencampwriaeth y gwledydd.

Er bod llai o gyfle i fechgyn nag i enethod ar hyn o bryd, mae gwaith da clybiau Trefynwy, Caerdydd a Phenarth yn prysur newid y sefyllfa. Mae Cymdeithas Lacrós Cymru wedi estyn hyfforddiant i hyfforddwyr, athrawon ac arweinwyr, a darperir cyrsiau yng Nghaerdydd i'r rhain oll. Mae Canolfan Rhagoriaeth, a sefydlwyd y llynedd, wedi trefnu taith i'r Almaen y Pasg nesaf â charfan o 36. Byddai hi'n well i Max Boyce gyfansoddi cân newydd i ddisodli ei '*Hymns and Arias*', er y byddai hi'n cymryd sawl blwyddyn i honno'n ein swyno cystal!

## Y BÊL HIR

### Ymchwil i Rygbi



Treuliais amser gyda thri dyn prysur oedd yn gweithio â'u cyfrifiaduron yn Athrofa'r Brifysgol yng Nghyncoed, ac yr oedd yn syn gennyf weld beth yn union yr oedden nhw'n ei wneud. Gwylio tapiau fideo dirifedi yr oeddynt gan godi manylion gornestau rhyngwladol - sawl cic gosb oedd yn yr ornest - safle'r gic - manylion amdani - a hynny *i bob gwlad a phob ciciwr.* Dyna un agwedd yn unig a dyna'r cyfan y gellir sôn amdano yma oherwydd prinder gofod; y tri a fu wrthi mor ddygn oedd Jason Williams o Bontyberem, Mikel Mallick o Brisbane, Awstralia, a'n cyn-ddyfarnwr rhyngwladol, Corris Thomas. Anelu at gyhoeddi llyfr swmpus iawn erbyn Cwpan y Byd y maen nhw, ac os byddaf fyw y pryd hynny, byddaf yn sicr o brynu copi.

Trown yn awr at waith Corris Thomas ei hun - yr ymchwil a ddaw â Doethuriaeth iddo yn y man: 'Dyfarnu Rygbi, ar Wastad Rhyngwladol, a'i Ddylanwad ar Ddatblygiad y Gêm ledled y Byd.' Eto, ychydig yn union y gallaf sôn amdano wrth reswm, ac i mi, y manylion am giciau cosb oedd yr agwedd fwyaf diddorol - a syfrdanol. Byddwch yn barod!

Mae Corris wedi dadansoddi yn y tair blynedd ddiwethaf bob gornest ryngwladol rhwng yr wyth gwlad sy'n aelodau o'r Bwrdd Rhyngwladol ynghyd â rhai gornestau clybiau - dros ddau gant o dapiau fideo erbyn iddo orffen ddiwedd y ganrif. Ar gyfartaledd mae'r dyfarnwyr o Ffrainc wedi rhoi 35 cic yr ornest, a'r Awstraliaid 20; damcaniaeth Corris oedd bod a wnelo problem iaith rywbeth â hyn, yn ogystal â gwahanol agwedd tuag at y gêm. At ei gilydd mae'r dyfarnwr yn bleidiol dros y tîm sydd ar ei hôl hi, *a thros y tîm sy'n chwarae gartref*; brysiodd ddweud mai gwahaniaeth agwedd eto oedd hyn yn ei farn ef, ac nid âi'r un dyfarnwr ar y cae â'r bwriad o ddyfarnu felly. Wele ystadegau gornest clwb hynod o ddiddorol - Brive yn erbyn Caerdydd yng Nghwpan Ewrop y tymor diwethaf: ar ôl 61 munud o chwarae a'r sgôr yn 26-6 i Brive, rhoddasid 15 cic gosb i'r Ffrancod a 9 i'r Cymry - yna yn 19 munud olaf ola'r ornest wedi iddo anfon John Humphries oddi ar y cae, rhoddodd y dyfarnwr 18 cic gosb i Gaerdydd ac 1 yn unig i Brive. Dywedodd chwaraewyr Caerdydd nad oeddynt yn ymwybodol bod y Ffrancod yn ymddwyn yn wahanol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Yn 1995 yng Nghwpan y Byd yn Ne Affrica cafodd Lloegr 50 y cant o'r ciciau cosb a ddyfarnwyd (ar gaeau niwtral), ond gartref yn hydref yr un flwyddyn cawsant 27 yn erbyn De Affrica gan ildio 9 yn unig, a'r un yn union oedd yr ystadegau yn eu gornest nesaf - gartref yn erbyn Gorllewin Samoa. Gornest nesaf Lloegr oedd ym Mharis lle'r cawsant 47 y cant o'r ciciau cosb *ond dim un yn y 40 munud olaf.* Yn ôl i Dde Affrica a'r Cwpan i gloi: yn erbyn Seland Newydd yn y Rownd Gynderfynol y dyfarnwyd 10 o'r 11 gic olaf i'r Saeson pan oeddynt ar ei hôl hi o bell. A beth am hyn? Seland Newydd ... 145, Siapan ... 17 (21 cais i 2) *ac 20 cic gosb i Siapan ac 1 i'r Crysau Duon.*

Fel y profodd Corris Thomas, y mae dylanwad y dyfarnwr yn fawr iawn: meddylier, meddai, am beth fel hyn: Cymru ar y blaen o 17-0 gartref ond oherwydd y ciciau cosb a ddyfarnwyd i'r gwrthwynebwyr, 17-15 oedd y sgôr terfynol. Cwestiwn cyntaf Kevin Bowring i'r tîm yn yr ystafell newid fyddai: 'Beth aeth o'i le - pam y gadawyd iddynt sgorio pymtheg pwynt yn yr ugain munud olaf?'

Barn Corris yw na ddealla'r dyfarnwr beth y mae ef i fod yn ei wneud.



Llun: Robin Griffith

*Corris Thomas (yn sefyll) gyda Mikel Mallick (chwith) a Jason Williams*

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gareth Kiff

Beth yw'r gair mwyaf pwysig i bobl sy'n dysgu Cymraeg? Byddwn i'n dweud mai 'ymarfer' yw e. Mae'n bwysig iawn eich bod yn defnyddio ac YMARFER eich Cymraeg y tu allan i'r dosbarth. Dyma eich cyfle! Mae dau grŵp newydd o CYD wedi cael eu sefydlu'n ddiweddar.

Bydd grŵp o ddysgwyr yn cwrdd bob nos Fercher am 9.00 p.m. ymlaen yn y Tavistock, Stryd Bedford, ger Heol y Plwca (*City Road*), Y Rhath, Caerdydd. Mae'r grŵp yma wedi cael ei sefydlu yn arbennig ar gyfer dysgwyr o Safon Uwch.

Hefyd mae grŵp arall wedi dechrau, sef Grŵp Hamdden CYD. Bwriad y grŵp yma yw trefnu nifer o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg - er enghraifft, teithiau cerdded, sboncen ac yn y blaen. Os hoffech ragor o fanylion am y grwpiau hyn cysylltwch â fi ar 01222 486469.

## FIDEO CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi gwneud fideo o'r enw 'Dewch Gyda Ni' fydd ar gael yn y siopau yn fuan! Mae'n olrhain hanes y mudiad a'r frwydr dros yr iaith Gymraeg. Yn barod mae llawer o bobl wedi gweld y fideo mewn ysgolion, colegau a dosbarthiadau Cymraeg i oedolion. Os hoffech weld y fideo neu drefnu i rywun ddod i mewn a dangos y fideo yn eich dosbarth chi, cysylltwch â Lleucu Meinir ar 01467 403577.

Mae llawer o hen ffilm o'r chwedegau a'r saithdegau yn y fideo yn ogystal â ffilm o'r blynyddoedd diweddaraf. Mae llawer o bobl enwog yn y fideo hefyd, gan gynnwys Ieuan Evans, Nigel Walker, Huw Ceredig (Reg *'Pobol y Cwm'*), Ray Gravell, Ffion Dafis (*I-Dot*), Cerys Mathews (Catatonia) a llawer o actorion a wynebau cyfarwydd eraill! Byddai'n gwneud anrheg Nadolig arbennig o dda i unrhyw un sydd â diddordeb yn y Gymraeg a'r frwydr i'w chadw yn fyw.

## CLONC

Ydych chi wedi clywed am y rhaglen radio newydd i ddysgwyr rhugl?

Mae'r rhaglen ar Radio Cymru bob nos Sadwrn am 6.30 p.m. Rhaglen gylchgrawn yw hi yn cynnwys nifer o eitemau gwahanol megis:

| | |
|---|---|
| adolygu cylchgronau | chwaraeon |
| proffil o berson enwog | eitemau cerddorol |
| holi dysgwyr | digwyddiadau |

adolygu rhaglenni radio a theledu

Bydd cyfle i wrandawyr ysgrifennu neu ffonio. Felly cofiwch wrando!!

## DYDDIADUR DIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **Pob yn ail ddydd Mawrth** 12.30 - 2.00pm | Clwb Coffi y Fro, Coleg Cymunedol y Bont-faen. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob dydd Mercher** 12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob bore Gwener** 9.45 - 11.45am | Clwb Coffi y Barri, Canolfan Palmerston. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob dydd Gwener** 1.00pm - 3.00pm | Clwb Coffi Treganna, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob bore Sadwrn** 11.00am - 2.00pm | Clwb Sadwrn ACEN: cyfle gwych i ymarfer eich Cymraeg a chwrdd â ffrindiau newydd. Ffoniwch Rhun ar 01222 665455 am fanylion. |

## Y CYLCH LLYFRYDDOL

### Sesiwn gynta'r tymor

Ar ddechrau tymor newydd talodd y Cadeirydd, Mr Hywel Jeffreys, deyrnged haeddiannol i'r diweddar Ddoethur Dewi Eirug Davies, sgolor, pregethwr, awdur toreithiog, cyfaill cywir i lawer, 'Pendragon ein ffydd a'n proffes' - a Chadeirydd y Cylch y tymor diwethaf.

Pâr priod oedd y gwesteion - Havard a Rhiannon Gregory - a chawsom wybod pa lyfrau oedd yn hoff ganddynt eu cael 'wrth erchwyn gwely'. Hoffai Havard - gŵr â'i wreiddiau yng Ngwaelod-y-garth - bori yn *Y Flodeugerdd Gymraeg* (er yn gresynu na welodd yr Athro W J Gruffydd yn dda gynnwys ynddi ddim byd yn gynharach na diwedd yr ail ganrif ar bymtheg), yng nghyfrolau atgofion Crwys a Dyfnallt a gwaith Tecwyn Lloyd, ac unrhyw beth sy'n sôn am yr Havardiaid a'r Grigoriaid yn yr oesoedd a fu.

Yn ogystal ag *Amser Bwyd* (Minwel Tibbott) mae Rhiannon, merch o Gwmtawe, yn hoff iawn o ddarllen ac ailddarllen *Orinda* gan R.T. Jenkins, 'cameo bach hyfryd o gyfnod y Rhyfel Cartref'. Un arall o'i hoff lyfrau yw'r detholiad o sgyrsiau radio yr Athro Ifor Williams yn dwyn y teitl, *Meddwn i*. Cawsom y fraint ddymunol iawn o glywed dyfyniadau o'r gyfrol ganddi, yn dwyn ar gof i nifer ohonom lais hyfryd Ifor Williams yn eu darllen ar y radio cyn ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

## Cymdeithas Gymraeg Penarth

Cychwynnodd tymor y Gymdeithas eleni gydag ymweliad â Theatr Crwys lle cafodd yr aelodau gyfle i fwynhau Cymdeithas Ddrama'r Crwys yn perfformio dwy ddrama un-act. *Rhwng Pob Cegod*, oedd y ddrama gyntaf, cyfieithiad Emyr Edwards allan o gasgliad Alan Ayckbourne, *Confusions*. *O'r Niwl i'r Nef* oedd teitl yr ail ddrama, addasiad Mallt Anderson a Beni Harries o ddrama David Schutte, *A Bite of the Apple*. Cyfarwyddwyd y dramâu gan Betsan Evans a Chris Jones, dan lygaid barcud George Owen. Cafodd yr aelodau noson gofiadwy ac fe fynegwyd hynny mewn gair o ddiolch gan y llywydd, Mr Tom Evans.

## Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina

Dechreuodd tymor newydd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina nos Lun, 15 Medi, yn Festri Capel Bethany, Heol Llanisien Fach a daeth hanner cant ynghyd i fwynhau noson o gwisiau a chanu cynulleidfaol dan arweiniad Gwilym Roberts, Llywydd Anrhydeddus y Gymdeithas. Cyfeilydd y noson oedd Alun Guy.

Yna ar nos Lun, 6 Hydref, cafwyd sgwrs ddifyr am y darlun enwog 'Salem' gan Mr a Mrs Tal Williams, Pontardawe. Roedd dros hanner cant yn bresennol gan gynnwys pum ymwelydd o Batagonia.

# YSGOL GYMRAEG PWLL COCH

Mae'r ysgol yn chwilio am berson brwdfrydig i lenwi swydd clerc yr ysgol. Gofynnir i'r person weithio naw awr yr wythnos yn ystod tymor ysgol - cyflog Graddfa 2 £2,110 - £2,212. Fe fydd yr oriau gwaith yn cynyddu gyda tyfiant yr ysgol.

Mae sgiliau prosesydd geiriau yn hanfodol ac fe gynigir hyfforddiant yn y pecyn ariannu SIMS.

Am drafodaeth anffurfiol a fyddech chi gystal â chysylltu â'r Pennaeth, Miss Anna Roberts ar 01222 323453.

# YSGOL GYMRAEG COED Y GOF YN EISIAU GWIRFODDOLWYR

**Cynllun R.S.V.P.**

(Retired and Senior Volunteer Programme)

i helpu a hybu darllen plant yn yr iaith Gymraeg.

Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â'r Prifathro am ragor o wybodaeth.
Rhif Ffôn: 01222 564585.

Cydnabyddir treuliau teithio.

**Annwyl Olygydd,**

Rwy'n ymchwilio i fywyd a gwaith y Dr John Lloyd Williams (1854-1945) a'i gyfraniad gwerthfawr i fyd canu gwerin yng Nghymru. Er mai darlithydd mewn Llysieueg ydoedd wrth ei alwedigaeth, ymddiddorai yn fawr iawn ym myd Cerddoriaeth gan deithio ar hyd a lled Cymru yn darlithio a chasglu alawon traddodiadol. Bu hefyd am flynyddoedd lawer yn olygydd cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru.

Os digwydd fod gan rai o'ch darllenwyr unrhyw wybodaeth neu ddeunyddiau perthnasol, neu unrhyw atgofion yn gysylltiedig â Dr J Lloyd Williams a'r Gymdeithas Alawon Gwerin, byddwn yn falch iawn o glywed oddi wrthynt, ac yn gwerthfawrogi unrhyw fath o gymorth.

Diolch yn fawr iawn.
Yn gywir,

**Eleri Wyn Jones.**
Adran Cerddoriaeth,
Prifysgol Cymru Bangor,
Bangor,
Gwynedd LL57 2DG

## Côr Ysgol Gyfun Rhydfelen

**IONA JONES, JEREMI COCKRAM, JEFFREY HOWARD**




**Eglwys St. Elfan, Aberdâr**
**Rhagfyr 4ydd, 1997 am 7 o'r gloch**

**Eglwys St. Catherine, Pontypridd**
**Rhagfyr 5ed, 1997 am 7 o'r gloch**

**Tocynnau: £3 (Oedolion); £2 (Plant)**
**Ffôn: 01443 486816/7**

CBAC WJEC

Y SIOP LYFRAU

## FYDDWCH CHI'N DILYN CWRS TGAU NEU SAFON UWCH ELENI?

- Cyn-bapurau TGAU, Safon Uwch ac Uwch Atodol
- Atebion enghreifftiol
- Meysydd llafur
- Llyfrau gosod ac arweinlyfrau
- Canolfan Adnoddau Ewropeaidd **NEWYDD**
- Adnoddau i ddysgwyr
- Llyfrau darllen i blant a phobl ifanc

***Galwch heibio'r Siop Lyfrau ar ei newydd wedd***

Ar agor: Llun - Gwener
9.00am - 5.00pm

*245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd CF5 2YX*
*(gyferbyn ag Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd)*

Ffôn: (01222) 265112
(01222) 265063
Ffacs: (01222) 575987

# CYMANFA GAROLAU

Nos Sul, Tachwedd 30ain, 1997
am 8 o'r gloch yn
Ebeneser, Heol Siarl, Caerdydd

Arweinydd: **Alun Guy**

Cyfeilydd: **Cedric Jones**

**Côr Merched Canna**

Yr elw at Apel Ymchwil Cancr Ysbyty Felindre

Casgliad Rhydd



## DALIER SYLW

*yn cyflwyno*

# MAOYSATA

*gan*
**SERA MOORE WILLIAMS**

*ymryson yr ysbrydol a'r materol*
*Colli iaith, diwylliant a phobol,*
*Cynhyrchiad rhythmig a chorfforol*

***gyda***
*Betsan Llwyd, Iwan Tudor, Catrin Powell, Sian Summers, Pebs Jones, Einir Sion, Jenny Livsey, Nicola Branson*

*CAERDYDD*
***Canolfan Celfyddydau Chapter***
*Nos Iau 20 - Sadwrn 22 Tachwedd 8yh*
*Tocynnau: 01222 399666*

***ABERYSTWYTH***
***Canolfan y Celfyddydau***
*Nos Fawrth 25 Tachwedd 7.30yh*
*Tocynnau: 01970 623232*

*FELINFACH*
***Theatr Felinfach***
*Nos Fercher 26 Tachwedd 7.30yh*
*Tocynnau: 01570 470697*

***ABERHONDDU***
***Theatr Brycheiniog***
*Nos Iau 27 Tachwedd 7.30yh*
*Tocynnau: 01874 611622*

*HARLECH*
***Theatr Ardudwy***
*Nos Wener 28 Tachwedd 7.30yh*
*Tocynnau: 01766 780667*

***Am fanylion pellach:***
***DALIER SYLW 01222 236650***

# NADOLIG YNG NGHYMRU

**Geiriadur Saesneg - Cymraeg Yr Academi**
£10 cyfan yn rhatach yn TSO Oriel **£30**

**Nadolig Blasus Ena a Christmas With Ena**
y ddau wedi eu gostwng o £9.95 i **£7.95** yn unig

**Christmas in Wales**
Blodeugerdd Dewi Roberts
rhywbeth at ddant pawb - i lawr o £6.95 i **£5.45**

dim ond yn Y Llyfrfa Oriel.
Prynwch tra bod y stoc yn parhau. Siopwyr personol yn unig. Dim archebion trwy'r post.

The Stationery Office

Oriel, Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd
Ar agor o 9.00 tan 5.30,
ac yn hwyr ar nosweithiau
Iau ym mis Rhagfyr.